OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 562 (Cy.57)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Meirion-Dwyfor (Diddymu) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf, mae corfforaeth addysg bellach Coleg Llandrillo(**3**) wedi cydsynio i'r trosglwyddiad o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau corfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chorfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Meirion-Dwyfor (Diddymu) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan erthygl 9 o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238 (Cy.243)) a pharagraffau 13 ac 16(a)-(c) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw; gan adran 29 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p. 25); a hefyd gan adrannau 15 a 30 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ond pan wnaed y Gorchymyn hwn nid oedd y darpariaethau hynny wedi eu cychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Sefydlwyd fel "Llandrillo Technical College" gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**4**) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).